OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1312 (Cy.138)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*11 Mai 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 143(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 1 a 5 o Atodlen 11 iddi(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) (Diwygio) 2004, maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 31 Mai 2004.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliadau 1995" ("*the 1995 Regulations*") yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 1995(**2**).

Diwygio Rheoliadau 1995

3. Mae Rheoliadau 1995 yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

(a) hepgorir Rheoliad 4(2)(d);

(b) hepgorir Rheoliad 7(1)(e).

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd Adran 143(2) gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) a pharagraffau 72 a 79(3) o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd Paragraff 1 a 5 o Atodlen 11 gan adran 117(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14) a pharagraffau 88(1), (3) a (13) o Atodlen 13 iddi gydag effaith mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 1993. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau a'r atodlen uchod, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, O.S. 1999/672.

(**2**) O.S. 1995/3056 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001, O.S. 2001/1439 (Cy.101).